PROSESAU FFISEGOL:

Cyfres o 25 sgrîn sy'n cwmpasu agweddau o brosesau ffisegol a geir yn y pecyn hwn.

Mae'n cefnogi Rhaglen Astudio Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 Prosesau Ffisegol ac yn cynnwys sgriniau am ffynonellau goleuni, goleuni a sain, gwthio a thynnu, newid cyfeiriad, y newid yn safle'r haul yn ystod y dydd, cysgodion, pethau trydanol a chylchedau syml.





Mae'r sgriniau'n cynnig dewis o weithgareddau a gall y plant ychwanegu atynt trwy lusgo labeli a lluniau sydd wedi'u darparu iddynt yn y paneli adnoddau. Gallant glicio ar y botwm tasg a chyflawni'r dasg a roddir iddynt, neu ddefnyddio cynnwys y sgrîn yn eu ffordd eu hunain.

Y SGRINIAU:

1. Gwthio pethau - symud y wagenni - (animeiddio syml yn y fformat Textease).
2. Tynnu pethau - symud y wagenni - (animeiddio syml yn y fformat Textease).
3. Tynnu a gwthio - gosod y lluniau yn y lle cywir.
4. Newid siâp - gosod y lluniau yn y lle cywir.
5. Geiriau am symud - gosod geiriau a lluniau wrth ei gilydd.
6. Mwy o eiriau am symud - i'r gwrthwyneb, newid cyfeiriad a newid buanedd.
7. Sut mae anifeiliaid yn symud - gosod y lluniau mewn grwpiau.
8. Newid cyfeiriad - defnyddio'r bysellfwrdd / llygoden i symud y car/ceir o gwmpas y trac.
9. Rhannau tortsh - tynnu'r llun yn ddarnau.
10. Trydan - didoli pethau trydanol yn rhai gyda batri a rhai gyda phlwg.
11. Cylchedau - copïo cylched syml.
12 - 15. Beth sy'n bod? - labelu'r lluniau.
16. Beth sy'n bod? - cywiro'r cylchedau neu labelu'r lluniau.
17. Swn anifeiliaid - gosod geiriau a lluniau wrth ei gilydd.
18. Mwy o eiriau am sain - cwblhau brawddegau syml.
19. Clywed pethau - rhoi'r testun yn y lle cywir.
20. Ffynonellau goleuni - gosod y lluniau mewn grwpiau.
21. Goleuni a thywyllwch - paru cardiau a'u labelu.
22. Ble mae'r haul? - gosod y lluniau yn y lle cywir.
23. Ble mae'r haul? - gosod y lluniau yn y lle cywir.
24. Cysgodion - gosod y lluniau yn y lle cywir a'u labelu.
25. Sgrîn newydd - cynllunio sgrîn newydd.

MEWNOSOD Y FFORMAT MY WORLD:

Dylai rhoi'r CD yn y gyriant CD achosi i flwch dialog 'SetUp'ymddangos. Yna, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn.

MEWNOSOD Y FFORMAT TEXTEASE:

Dylai defnyddwyr Textease glicio ar 'My Computer' i agor y gyriant CD. Gellir copïo'r blygell ProsFfisTex i'r ddisg galed a gwneud llwybr byr ar y bwrdd gwaith i'r ffeil agoriadol, sef 1 Ffiseg.

Y FFONT YSGOL 2:

Defnyddiwd y ffont 'Ysgol 2' ar y sgriniau gyda chaniatâd MEU Cymru
www.meucymru.co.uk

Dylai mewnosodwr My World fewnosod y ffont Ysgol 2 yn y blygell ffontiau.

Dylai defnyddwyr Textease agor y blygell 'Ffontiau' ar y CD, ynaclicio ddwywaith ar setup.exe. Bydd hyn yn arsefydlu 'Ysgol 2' yn y blygell ffontiau.

© Clic 2003

DYWEDWCH WRTH ERAILL OS YDYCH YN HOFFI EIN CYNNYRCH.

DYWEDWCH WRTHYM NI OS OES UNRHYW BETH NAD YW'N EICH PLESIO AM EIN CYNNYRCH.

Clic, Bwthyn Y Glyn, Nant Y Garth, Y Felinheli, Gwynedd. LL56 4QB

Ffôn 01248 671093 Ffacs (ac ail lein) 01248 679295

ebôst-clic@clicsoft.co.uk CYSWLLT: Gaynor neu Thomas Perry.